




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: **Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 24 Medi 2014

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 15 Hydref 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Contractau Gwaith Dyletswydd Troseddol

Ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar
<https://consult.justice.gov.uk/>

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- Ar gyfer:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus ac at eraill sydd â diddordeb yn y system gyfiawnder.
- Hyd:** O 24 Medi 2014 tan 15 Hydref 2014
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) at:** Annette Cowell
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk
- Bydd papur ymgynghoriad Cymraeg ar gael ar <https://consult.justice.gov.uk/>
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Hydref 2014 at:
Annette Cowell
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk
- Papur ymateb:** Bydd papur sy'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar ôl iddynt gael eu hystyried. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein ar:
<https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Materion i ymgynghori yn eu cylch	5
Holiadur	12
Amdanoch chi	13
Manylion cyswllt /Sut i ymateb	14
Egwyddorion ymgynghori	16

Cyflwyniad

1. Yn dilyn ein hymgyngori cynharach ar drawsnewid cymorth cyfreithiol,¹ a chyd-drafod manwl gyda Chymdeithas y Gyfraith, cyhoeddasom ein cynigion am farchnad cymorth cyfreithiol cynaliadwy mewn ymgyfreitha troseddol ym mis Chwefror 2014. Bydd y cynigion yn cyflawni'r arbedion angenrheidiol i'r pwrs cyhoeddus, gan sicrhau y bydd y rheini a gyhuddir o drosedd yn parhau i allu cael at gyfiawnder a derbyn cynrychiolaeth gyfreithiol o safon; y bydd diffynyddion yn rhydd i ddewis eu cyfreithiwr, boed arnynt eisiau cwmni mawr, eu cyfreithiwr stryd fawr lleol neu arbenigwr penodol; ac y gallai pawb o'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol barhau i wneud hynny, cyn belled â'u bod yn cyrraedd isafswm o ansawdd o ran safonau.
2. Rydym wedi dyfarnu dros 1,800 o gontractau gwaith eu cleientiaid eu hunain i ddarparwyr sy'n cyrraedd safonau o ansawdd fel y gall pobl ddewis eu darparwr eu hunain os dymunant wneud hynny. Gall y rheini nad ydynt yn dymuno dewis eu darparwr eu hunain ddewis y darparwr ar ddyletswydd sydd ar gael. Bydd nifer llai o leoedd ar rota darparwr dyletswydd yn cael eu dyrannu gan fecanwaith contractio sy'n seiliedig ar ansawdd a chynhwysedd, gan sicrhau mai dim ond darparwyr, neu grwpiau o ddarparwyr, sy'n dangos yn glir fod ganddynt y gallu i weithredu'r graddau o wasanaeth a ragwelir a fydd yn derbyn contract. Mewn amgylchedd ariannol mwy heriol, bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd gwaith dyletswydd i ymgeiswyr llwyddiannus, a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Rydym wedi derbyn cyngor gan Otterburn Legal Consulting LLP (Otterburn) a KPMG LLP (KPMG) a daethom i'r casgliad ym mis Chwefror y dylai fod 525 o'r contractau hyn (yr uchafswm yn yr ystod a gynigiwyd inni fel rhan o'r cyngor hwn). Gofynnodd Cymdeithas y Gyfraith yn benodol inni fabwysiadu'r nifer uchaf bosibl o gontractau yn yr ystod, er budd eu haelodau ac er mwyn darparu hynny ag oedd modd o hyblygrwydd i'r farchnad. Bydd y cynigion am nifer cyfyngedig o gontractau dyletswydd yn sicrhau ffordd hirdymor a chynaliadwy ymlaen i'r Llywodraeth ac i'r alwedigaeth.
3. Rydym bellach yn ymgynghori ar yr adroddiadau a wnaed gan Otterburn a KPMG (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014 ar <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps>) a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi modelu ariannol KPMG ar gyfer penderfynu'r nifer o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd i'w cynnig. Nid yw'r model contractio deulol a'r penderfyniad i gyfyngu ar y nifer o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd o fewn cwmplas yr ymgynghoriad hwn. Mae'r papur hwn yn ceisio barn a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r dadansoddiad a wnaed gan Otterburn a KPMG y gwnaethom ei gomisiynu ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith cyn ymateb i Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf,² gan gynnwys, yn benodol, canfyddiadau Otterburn a'r casgliadau y daethant iddynt a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd gan KPMG wrth baratoi ei ddadansoddiad.

¹ https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/consult_view

<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

² <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/results/transforming-legal-aid-next-steps-respons.pdf>

4. Bydd Gweinidogion yn ystyried y nifer o contractau darparwyr gwaith dyletswydd a fydd yn cael eu cynnig yn y tendr i ddod ar gyfer gwasanaethau amddiffyn troseddol cymorth cyfreithiol yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Fe wnaeth y modelu ariannol a wnaed gan KPMG, ar sail yr ymchwil gan Otterburn a data hawliadau gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, gynhyrchu ystod o'r niferoedd o contractau y gellid eu ystyried o fewn paramedrau'r modelu. Cyn hynny, penderfynodd Gweinidogion, yn dilyn trafodaeth gyda Chymdeithas y Gyfraith, y dylai'r nifer o contractau fod cymaint ag sy'n bosibl o fewn yr ystod a awgrymwyd gan KPMG er gwaethaf yr heriau ymarferol o gynnal tendr cystadleuol am nifer mor fawr o contractau a'r baich gweinyddol o reoli'r contractau hyn i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Bydd Gweinidogion yn awr yn penderfynu ar y nifer o contractau y dylid eu cynnig. Ein hamcan o hyd yw gweithredu model sy'n sicrhau gwasanaeth cynaliadwy fel bod cyfreithiwr ar ddyletswydd ar gael i bawb sydd angen un. Wrth benderfynu ar y nifer o contractau dyletswydd, mae cydbwysedd i'w daro rhwng cael nifer uchel, sy'n rhoi cyfle i fwy o ddarparwyr gael gwaith dyletswydd, a nifer isel a fyddai'n rhoi swm mwy o waith i ddeiliaid contractau unigol. Mae gennym ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth gan ymarferwyr cymorth cyfreithiol troseddol a allai fod yn berthnasol i'r dadansoddiad o'r ymchwil fel y gall gweinidogion benderfynu ar y nifer o contractau i'w cynnig ledled Cymru a Lloegr. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein bwriad yw symud ymlaen gyda lansio'r ymarfer tendro Gwaith Dyletswydd cyn gynted ag sy'n bosibl.
5. Mae'r Asesiad o Effaith a'r Asesiad Cydraddoldeb, a gyhoeddwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Chwefror, ar gael ar <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps>. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar 525 o contractau dyletswydd. Byddwn yn eu hadolygu yng ngoleuni tystiolaeth a gasglwyd o'r ymarferiad ymgynghori hwn, ac os bydd angen byddwn yn cyhoeddi asesiad diwygiedig yn unol â'r penderfyniad a wnaed.

Materion i ymgynghori yn eu cylch

6. Yn *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf*³ cynigiasom ein bod yn cynnig nifer anghyfyngedig o gontractau i gyfreithwyr gyflawni gwaith ar gyfer eu cleientiaid eu hunain. Byddai unrhyw ymgeisydd sy'n gallu bodloni gofynion y broses dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) yn gymwys i gael contract gwaith ar gyfer eu cleientiaid eu hunain. Fodd bynnag, byddai angen i'r rheini sy'n dymuno darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i'r cleientiaid hynny sy'n dewis y darparwr ar ddyletswydd ymgeisio am un o nifer cyfyngedig o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd mewn un neu fwy o feysydd caffael. Nid yw'r penderfyniad cyffredinol hwn o gyfyngu ar y nifer o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd yn fater i'w drafod yn yr ymgynghoriad hwn; rydym wedi ymgynghori'n helaeth arno ac wedi cyhoeddi'r ffordd ymlaen ym mis Chwefror. Rydym yn ceisio barn a thystiolaeth yn benodol ynghylch adroddiadau Otterburn⁴ a KPMG⁵. Nid oes unrhyw angen i ailadrodd sylwadau a wnaed eisoes mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol, gan fod y rhain eisoes wedi cael eu hystyried.
7. Rydym wedi nodi yn y ddogfen *Y Camau Nesaf* (paragraff 3.31) nifer o ffactorau yr ydym wedi eu hystyried wrth benderfynu'r nifer o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd ar gyfer y model terfynol. I grynhoi, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol yn y dyfodol gael:
 - cyflenwad digonol o ddarparwyr i ymdrin â gwrthdrawiadau buddiannau posibl;
 - nifer digonol o achosion i alluogi cynlluniau ffioedd sefydlog i fod yn ddewis ymarferol i ddarparwyr;
 - hyblygrwydd yn y farchnad – gallu darparwyr presennol ym mhob maes caffael i ehangu er mwyn cymryd mwy o waith; a
 - chaffael cynaliadwy – yr angen i sicrhau bod y farchnad yn gynaliadwy mewn cylchoedd tendro yn y dyfodol.
8. Yn ogystal, roedd yn rhaid i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol yn y dyfodol fod yn gynaliadwy gyda darparwyr hyfyw.
9. Er mwyn helpu arwain ein dadansoddiad o gynaliadwyedd a'r penderfyniad ar y nifer o gontractau i ddarparwyr gwaith dyletswydd, fe wnaethom gomisiynu, ar y cyd â Chymdeithas y Gyfraith, ddau ymgynghorydd (Otterburn Legal Consulting LLP a KPMG LLP).
10. Gofynnwyd i Otterburn gasglu tystiolaeth gan ddarparwyr presennol cymorth cyfreithiol troseddol trwy ddulliau ymchwilio meintiol ac ansoddol a rhoi setiau data diennw i KPMG i arwain y modelu ariannol a'r dadansoddi oedd ei angen. Fe wnaeth yr

³ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps>

⁴ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/results/otterburn-legal-consulting-a-report-for-the-law-society-and-moj.pdf>

⁵ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid-next-steps/results/kpmg-report.pdf>

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chymdeithas y Gyfraith annog darparwyr i gymryd rhan yn y gwaith o gasglu data i Otterburn.

11. Cylch gwaith yr arolwg a wnaed gan Otterburn oedd archwilio:

- sefyllfa ariannol bresennol cwmnïau amddiffyn troseddol;
- barnau cwmnïau ar faint y contract y byddent ei angen er mwyn darparu contract hyfyw o ran gwaith dyletswydd ac i'w cleientiaid eu hunain; ac
- effaith y cynigion ar gwmnïau sydd newydd gael contract ar gyfer eu cleientiaid eu hunain.

12. Er nad oedd hyn hyn rhan o'r cylch gwaith ar gyfer y gwaith hwn, a nodir uchod, fe wnaeth Otterburn nifer o sylwadau ychwanegol. Nodir y rhain ar dudalennau 5 i 8 o adroddiad Otterburn. Ceisir safbwyntiau ymgynghoreion ar y sylwadau hyn.

13. Fel yr ydym wedi nodi mewn ymateb i'r ymgynghoriad *Y Camau Nesaf*, gofynnwyd i KPMG ddefnyddio data'r arolwg gan Otterburn Legal Consulting ac, o'i gyfuno â data hawliadau gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, adeiladu model ariannol i gynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y nifer addas o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd ym mhob maes caffael. Fe wnaeth KPMG hefyd ystyried y sylwadau a wnaed gan Otterburn. Y tri chwestiwn a ofynnodd KPMG wrth adeiladu eu model oedd:

- Cynhwysedd digonol: A oes digon o ddarparwyr sy'n gallu cyflawni'r swm gofynnol o waith o dan y contractau newydd?
- Cystadleuaeth: Ar gyfer hyn ac o leiaf un gystadleuaeth arall a oes tensiwn cystadleuol yn y farchnad?
- Hyfywedd: A oes gan yr ymgeiswyr buddugol fodel busnes sy'n arwain at berfformiad ariannol sy'n eu galluogi i barhau i fasnachu mewn ffordd gynaliadwy?

14. Fe wnaeth KPMG, yn dilyn trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth a Chymdeithas y Gyfraith, ac ar sail ei wybodaeth arbenigol o ymddygiad marchnadoedd, nifer o ragdybiaethau modelu ynghylch sut y byddai darparwyr yn debygol o ymddwyn yn y dyfodol. Er bod KPMG yn derbyn nad yw'r rhagdybiaethau hyn efallai'n adlewyrchu ymddygiad unigol pob darparwr, roedd angen iddynt ddefnyddio cyfres o ragdybiaethau a oedd yn seiliedig ar ymddygiad cyffredinol marchnadoedd mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Nodir y rhagdybiaethau modelu allweddol isod.

- Roedd KPMG o'r farn y byddai gan lawer o ddarparwyr â chontract darparwyr gwaith dyletswydd broblemau cynhwysedd o ran gwasanaethu'r contract darparu gwaith dyletswydd a chynnal eu gwaith presennol gyda'u cleientiaid eu hunain. Fe wnaeth KPMG fabwysiadu rhagdybiaeth y byddai darparwyr, ar gyfartaledd, yn barod i roi'r gorau i hyd at 50% o'u gwaith gyda'u cleientiaid eu hunain er mwyn cyflawni cyfansymiau mwy o waith contractau darparu gwaith dyletswydd. Roedd y rhagdybiaeth hon yn deillio o'r farn y byddai rhai darparwyr yn barod i roi'r gorau i 100% o'u gwaith gyda'u cleientiaid eu hunain er mwyn cyflawni cyfansymiau mwy a mwy dibynadwy o waith trwy gontractau darparwyr gwaith dyletswydd pe bai angen hynny, ac y byddai rhai darparwyr yn dewis peidio â rhoi'r gorau i ddim o'u gwaith gyda'u cleientiaid eu hunain ac y byddent yn tyfu i allu gwneud y ddau. Byddai pob busnes yn gwneud penderfyniad unigol ar sail eu model busnes, eu sylfaen o gleientiaid a'u gallu i ehangu.

- Wrth ystyried yr her sy'n wynebu darparwyr o ran effeithlonrwydd, fe wnaeth KPMG y rhagdybiaeth y byddai proffidioldeb cadarnhaol yn ddigonol i sicrhau hyfywedd i ddarparwyr.
 - Fe wnaeth KPMG gyfres o ragdybiaethau wrth gyfrifo'r nifer angenrheidiol o ymgeiswyr am nifer penodol o gontractau i sicrhau tensiwn cystadleuol. Rhagdybiasant gymhareb isafswm o 2 ymgeisydd am bob contract, y byddai 2 o'r ymgeiswyr hyn o blith darparwyr y tu allan i'r ardal ac y byddai 75% o'r ymgeiswyr fyddai ar ôl yn dod yn ddigon mawr i gyflawni'r contract gwaith dyletswydd a 50% o'u gwaith i'w cleientiaid eu hunain o fewn eu hardal.⁶
 - Cyfansymiau gwaith yn aros yn gyson: Er y cydnabuwyd y gallai cyfansymiau o waith cymorth cyfreithiol troseddol amrywio gan gynyddu, rhagdybiwyd ar gyfer y dadansoddiad bod cyfansymiau'n aros yn gyson ar lefelau 2012/13.
 - Bod cynhwysedd segur yn bod o fewn darparwyr: Rhagdybiwyd y byddai 15% o welliant mewn cynhwysedd yn codi o gynhwysedd segur sydd eisoes yn bod o fewn darparwyr a/neu ail-leoli rhai staff o feysydd eraill o'r cwmni i weithio ar waith cymorth cyfreithiol troseddol.
 - Bod gan ddarparwyr y gallu am dwf organig: tybiwyd bod gallu am 20% o dwf organig yn gyraeddadwy trwy fwy o weithgaredd recriwtio.
15. Fe wnaeth dadansoddiad KPMG wedyn asesu'r graddau o her sy'n gysylltiedig â gwahanol niferoedd o gontractau gwaith dyletswydd yn erbyn trothwyau (y cyfeiriodd KPMG atynt fel "trothwyau cychwynnol") ar gyfer effeithlonrwydd staff, y nifer o ddarparwyr presennol o faint a chydgrynhoi'r farchnad. Diben y dadansoddiad hwn oed barnu a oedd ar feysydd caffael penodol angen ystyriaeth fanylach cyn penderfynu ar ystod ar gyfer y nifer addas o gontractau ym mhob ardal.
16. Y trothwy cychwynnol ar gyfer asesu effeithlonrwydd staff oedd y gellid gwneud 20% o gynnydd, a oedd yn seiliedig ar ddata Otterburn. Roedd y trothwy cychwynnol ar y nifer o ddarparwyr presennol o faint yn asesu a oedd gan ardal gaffael o leiaf dri darparwr o faint. Mae'r adroddiad yn diffinio "deiliaid o faint" fel darparwyr presennol yn yr ardal gaffael sydd eisoes â chynhwysedd digonol i gyflawni contract gwaith dyletswydd o faint penodol, heb yr angen am dwf anorganig (ee cyfuno, consortia). Roedd y trothwy cydgrynhoi'r farchnad yn edrych a oedd gan ymgeiswyr ddiffyg o ran cynhwysedd a pha gyfran o gynhwysedd gan ddarparwyr eraill yn y farchnad y byddai ei angen i gydgrynhoi er mwyn cyflawni'r contractau gwaith dyletswydd a 50% o'r gwaith i'w cleientiaid eu hunain yn eu hardal eu hunain. Gosodwyd y trothwy cychwynnol hwn ar gyfer cydgrynhoi'r farchnad ar 25%.
17. Gan ddefnyddio'r modelu a'r tybiaethau hyn, fe wnaeth dadansoddiad KPMG gynhyrchu ystod o 355 i 525 o gontractau gwaith dyletswydd.

Barnau Presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

18. Nodir isod farnau presennol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd y Weinyddiaeth yn ailystyried ei farn yng ngoleuni'r safbwyntiau a'r dystiolaeth a roddir gan ymgynghoreion.

⁶ Gweler tudalan 30 o adroddiad KPMG.

Barnau ar Otterburn

19. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn fod y data a gasglwyd gan arolwg Otterburn wedi helpu llenwi bwlch pwysig yn y data sydd ar gael ar y costau a wynebwr gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Er mai sampl oedd yr arolwg, yn hytrach na chyfrifiad, credwn iddo roi'r adlewyrchiad gorau sydd ar gael o gyflwr y farchnad.
20. Fe wnaeth Otterburn, er na ofynnwyd iddo wneud argymhellion, fynegi nifer o sylwadau gan gynnwys y farn (ar sail ei brofiad) fod isafswm o 5% o elw'n angenrheidiol er mwyn gwneud darparwyr yn gynaliadwy. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd i gefnogi'r farn hon. Nid oedd KPMG, ar sail eu barn a'u profiad, yn cytuno bod unrhyw isafswm cyfradd elw penodol yn wirioneddol angenrheidiol. Yn absenoldeb dystiolaeth cadarn i gefnogi barn Otterburn ar y 5% o elw derbyniwn fod rhagdybiaeth KPMG yn un resymol i'w gwneud.

Barnau ar KPMG – rhagdybiaethau

21. Mae'n anodd darogan ymateb ymddygiadol darparwyr i newid yn y dyfodol. Er bod data o'r fath a gafwyd gan Otterburn yn ddefnyddiol fel sail ar gyfer asesiadau o'r fath, nid yw'n bosibl darogan yn fanwl gywir ymddygiad yn y dyfodol. Mae'n anochel bod angen ffurfio barn ynghylch sut y bydd cwmnïau'n ymddwyn yn y dyfodol, sy'n golygu'r angen i KPMG fabwysiadu rhagdybiaethau yn eu modelu.
22. O ran y rhagdybiaeth y byddai darparwyr, ar gyfartaledd, yn fodlon rhoi'r gorau i hyd at 50% o'u gwaith i'w cleientiaid eu hunain, roedd cyngor KPMG yn seiliedig ar eu gwybodaeth arbenigol o ymddygiad marchnadoedd sy'n addasu i newid. Daeth KPMG i'r farn y byddai'n rhesymol rhagdybio y byddai sefydliadau cyfyngedig eu cynhwysedd sy'n gweithredu'n fasnachol yn fodlon, hyd yn oed pe na baent yn hoffi gwneud hynny, defnyddio eu hadnoddau yn y ffordd fwyaf manteisiol yn fasnachol i'w busnes, gan gynnwys, yn y senario hon, rhoi'r gorau i'w holl waith i'w cleientiaid eu hunain. Ar y llaw arall, byddai rhai'n dadlau na fyddai unrhyw ddarparwyr yn rhoi'r gorau i unrhyw waith i'w cleientiaid eu hunain. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn derbyn yn llwyr na fyddai darparwyr yn dymuno rhoi'r gorau i unrhyw waith i'w cleientiaid eu hunain fel mater o ddewis cadarnhaol. Er hynny, mae'r Weinyddiaeth o'r farn y gallai darparwyr cyfyngedig o ran cynhwysedd rhoi'r gorau i waith gyda'u cleientiaid eu hunain i gyflawni eu rhwymedigaeth o dan contractau darparwyr gwaith dyletswydd, waeth pa mor anfoddog y gallent fod. Byddai'r penderfyniadau y bydd angen i ddarparwyr eu gwneud ynghylch eu gwaith i'w cleientiaid eu hunain yn dibynnu ar amgylchiadau unigol eu busnes a maint penodol y contract; po fwyaf y contractau (ac felly y mwyaf fo swm y gwaith) y mwyaf tebygol yw hi y byddai angen i ddarparwyr ganolbwyntio ar gyflawni gofynion y contract gwaith dyletswydd.
23. Cydnabu KPMG, ar ôl gwranddo ar farn Cymdeithas y Gyfraith a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y byddai rhai darparwyr yn dewis cadw cymaint ag y gallent o waith eu cleientiaid eu hunain; tra byddai eraill yn gwneud y penderfyniad masnachol i flaenoriaethu'r gwaith o dan y contract darparwyr gwaith dyletswydd sy'n rhoi mwyaf o sicrwydd i'w busnes. Felly, penderfynodd KPMG ei bod yn rhesymol rhagdybio, i ddibenion modelu, contractau gwaith dyletswydd yn disodli 50% o waith eu cleientiaid eu hunain. Credwn fod hyn yn dybiaeth resymol i'w gwneud.
24. Cytunwn â'r rhagdybiaethau a wnaeth KPMG wrth gyfrifo'r nifer angenrheidiol o ymgeiswyr am nifer penodol o contractau er mwyn sicrhau tensiwn cystadleuol. Cytunwn ag asesiad arbenigol KPMG o ymddygiad y farchnad a sut y gallai darparwyr ymateb o safbwynt eu hymddygiad ymgeisio i'r nifer gwahanol o contractau a gynigid.

25. Cytunwn hefyd â'r rhagdybiaeth y bydd y cyfansymiau o waith yn aros yn gyson. Er bod symiau gwaith cymorth cyfreithiol wedi gweld gostyngiadau dros y 5 mlynedd ddiwethaf, yn enwedig yn yr orsaf heddlu a'r Llys Ynadon, awgryma'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol fod y tueddiad tuag at i lawr mewn cyfansymiau yn arafu yn 2013/14. Mewn gwirionedd, roedd hawliadau gorsafedd heddlu'n uwch yn 2013/14 o gymharu â 2012/13, y cynnydd blwyddyn-ar-flwyddyn cyntaf ers 2008/09, a chynyddodd ceisiadau am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron o 112,607 yn 2012/13 i 122,094 yn 2013/14. Yn wyneb yr anhawster mewn darogan troseddu'n fanwl gywir, a'r amrywiaeth o ffactorau eraill sy'n effeithio ar gyfansymiau cymorth cyfreithiol – er enghraifft difrifoldeb y troseddau a gyflawnwyd, effaith newidiadau blaenorol mewn polisi, a chynhwysedd y system gyfiawnder troseddol – credwn fod rhagdybiaeth o gyfansymiau cyson yn rhagdybiaeth resymol i'w gwneud.
26. Gwnaed y rhagdybiaethau ynghylch cynhwysedd segur a'r gallu i dyfu gan KPMG ar sail eu barn broffesiynol a'u profiad ac yng ngoleuni safbwyntiau'r ymarferwyr o ymchwil Otterburn. Rydym o'r farn fod y tybiaethau hynny'n rhesymol. Rydym o'r farn fod 15% o gynhwysedd segur yn rhagdybiaeth resymol i'w defnyddio (mewn gwirionedd, i rai darparwyr, byddai 15% yn lefel gymharol isel o gynhwysedd segur i'w defnyddio). Cefnogir y rhagdybiaeth hon gan y ffaith fod cyfansymiau gwaith wedi gostwng, tra bod y nifer o ddarparwyr sy'n gweithio yn y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol wedi aros yn weddol gyson. Yn ogystal, o dan y system bresennol o ddyrannu rota cyfreithwyr ar ddyletswydd, gallai cyfreithiwr unigol fod ar alwad am gyfnod o wyth awr a derbyn dim mwy nag un neu ddwy alwad yn ystod yr amser hynny. Dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad hefyd y byddent yn defnyddio cymysgedd o gyfreithwyr cymwysedig ar ddyletswydd a chynrychiolwyr achrededig a lle bo angen, defnyddio asiantau er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael. Yn wyneb dealltwriaeth KPMG o ymddygiad y farchnad, cytunwn hefyd â'u rhagdybiaeth o dwf organig o 20% trwy fwy o weithgaredd recriwtio.
27. Er y cydnabyddwn gyfyngiadau anochel unrhyw ymgais i ddarogan ymddygiad yn y dyfodol, ein hasesiad presennol yw bod y rhagdybiaethau a wnaed gan KPMG yn rhesymol. Byddwn yn adolygu'r asesiad hwnnw yng ngoleuni'r barnau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan ymgynghoreion.

Barnau ar KPMG – dadansoddiad

28. Rydym o'r farn fod y modelu a wnaeth KPMG, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a amlinellir uchod ac yn seiliedig ar ddata Otterburn a data hawliadau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, yn ddibynadwy a bod yr ystod a ddeilliodd o'r dadansoddiad, sef rhwng 355 a 525 o gontractau gwaith dyletswydd, yn addas yn wyneb y rhagdybiaethau a'r data hynny.
29. Yn gyffredinol, ein hasesiad yw bod dadansoddiad KPMG, ar sail data Otterburn a data hawliadau gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, yn sylfaen gadarn a dibynadwy o dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar y nifer o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd i'w cynnig.

Cwestiynau

1. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau adroddiad Otterburn, gan gynnwys y sylwadau a nodir ar dudalennau 5 i 8 o'i Adroddiad? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**

2. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd gan KPMG? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
3. **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y dadansoddiad a wnaed gan KPMG? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
4. **A oes gennych unrhyw farnau ar sylwadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a nodir yn y ddogfen hon? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**

Niferoedd Contractau

30. Rhoddodd yr ymchwil annibynnol sail bwysig o dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar nifer addas o gontractau darparwyr gwaith dyletswydd i'w cynnig ym mhob ardal gaffael.
31. Fel y gwnaethom nodi yn yr ymateb i'r ymgynghoriad *Y Camau Nesaf*, cyn penderfynu pa nifer o gontractau i'w cynnig, o'r ystod a gynigiwyd gan KPMG, cyflawnasom ddadansoddiad mewnol pellach ar nifer o faterion y tynnwyd sylw atynt gan KPMG.
32. Wrth benderfynu ar y nifer priodol o gontractau, rhoddasom ystyriaeth i'n dadansoddiad mewnol pellach ni o'r pedwar ffactor a restrir yn *Y Camau Nesaf*:
 - Cyflenwad digonol i ymdrin â gwrthdrawiadau buddiannau posibl;
 - Niferoedd digonol o achosion i alluogi cynlluniau ffioedd sefydlog i weithio;
 - Hyblygrwydd y farchnad; a
 - Chaffael cynaliadwy.
33. Yn ogystal, rhoddasom ystyriaeth i'r angen i sicrhau bod y nifer o gontractau'n gallu cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Roedd yn angenrheidiol sicrhau y gellid tendro'n nifer o gontractau yn llwyddiannus a bod cyfanswm y contractau'n nifer y gellid ei reoli.
34. Gan weithredu'r ffactorau uchod, a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau Cymdeithas y Gyfraith, penderfynasom ym mis Chwefror i symud ymlaen gyda'r uchafswm nifer o gontractau. Dadleuai Cymdeithas y Gyfraith mai'r uchafswm posibl o ran nifer o gontractau oedd orau i'w haelodaeth gan y byddai'n sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o ddarparwyr yn gallu cyflawni gwaith darparwyr dyletswydd. Daethom i'r farn ar y pryd fod y ffactorau hyn yn gwrthbwysu'r ystyriaeth y byddai nifer llai o gontractau, ac iddynt werth uwch, yn helpu gwella hyfywedd ariannol darparwyr y dyfernid contract darparu gwaith dyletswydd iddynt.
35. Yn y papur ymgynghori, *Y Camau Nesaf*, cynigiasom yn wreiddiol rannu Llundain yn naw ardal gaffael gan ddefnyddio ardal y System Cyfiawnder Lleol. Fe wnaeth KPMG asesu model o'r fath a dangosodd fod heriau o ran cydgrynhai ac mai dim ond ychydig o ddarparwyr presennol sydd o ddigon o faint i ddiwallu cyfanswm y galw o naw ardal. Edrychodd KPMG felly ar dorri Llundain yn 32 o ardaloedd llai, gan roi ardaloedd caffael i gyfateb â'r ardaloedd cynllun dyletswydd gorsafoedd heddlu neu fwrdeistrefi. Roedd y dull hwn yn dal i ddangos heriau o ran cydgrynhai ond awgrymodd KPMG y byddai'n galluogi rhai darparwyr i dyfu i gyflawni contractau llai eu maint ac yn cynnig hyblygrwydd a dewis i ddarparwyr mawr a bach aros yn y farchnad.
36. Cyflwynodd KPMG ddau ddewis yn eu hadroddiad fel y nodir yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: Dewisiadau a gyflwynwyd gan KPMG ar yr ystod o gontractau darparwyd gwaith dyletswydd

	Y tu allan i Llundain	Llundain	Cyfanswm contractau
Dewis 1 (Llundain - 9 ardal)	285–315	70–90	355–405
Dewis 2 (Llundain - 32 ardal)		147–210	432–525

37. Yn unol â'r penderfyniad i symud ymlaen gyda'r nifer uchafswm o gontractau, cytunasom ym mis Chwefror i rannu Llundain yn 32 o ardaloedd caffael yn hytrach na naw.
38. Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn ar adroddiadau Otterburn a KPMG wedi eu llunio i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i Weinidogion i allu penderfynu ar y nifer o gontractau i'w cynnig. Cydnabyddwn, yng ngoleuni safbwyntiau ymgylgoreion ar y rhagdybiaethau a'r data a ddefnyddiwyd gan KPMG, y gall fod yn addas ailystyried yr argymhellion a roddwyd gan KPMG.

Cwestiynau

5. **Os yw'r rhagdybiaethau a'r data y mae argymhellion KPMG yn seiliedig arnynt yn dal i fod yn addas, a ydych chi o'r farn fod unrhyw reswm dros beidio â derbyn yr uchafswm posibl o nifer contractau (525), fel mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i wneud? Rhwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
6. **A oes gennych unrhyw farnau eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer o gontractau? Rhwch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn y papur ymgynghori hwn.

- 1. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau adroddiad Otterburn, gan gynnwys y sylwadau a nodir ar dudalennau 5 i 8 o'i Adroddiad? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
- 2. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd gan KPMG? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
- 3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y dadansoddiad a wnaed gan KPMG? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
- 4. A oes gennych unrhyw farn ar sylwadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a nodir yn y ddogfen hon? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
- 5. Os yw'r rhagdybiaethau a'r data y mae argymhellion KPMG yn seiliedig arnynt yn dal i fod yn addas, a ydych chi o'r farn fod unrhyw reswm dros beidio â derbyn yr uchafswm posibl o nifer contractau (525), fel mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i wneud? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**
- 6. A oes gennych unrhyw farnau eraill y dylem eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer o gontractau? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich barn.**

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi eich hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu'r swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad hwn ynddi (ee aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Os hoffech inni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych chi'n gynrychiolydd grŵp, dywedwch enw'r grŵp wrthym a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt /Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Hydref 2014 at:

Annette Cowell
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555

E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyfeiriad uchod.

Copiau ychwanegol

Mae rhagor o gopiau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael hefyd ar-lein ar <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gofyn am fersiynau fformat gwahanol o'r cyhoeddiad hwn oddi wrth LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar <https://consult.justice.gov.uk/>

Grwpiau o gynrychiolwyr

Gofynnir i grwpiau o gynrychiolwyr roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddont yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a gyflwynir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, neu ei ddatgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os oes arnoch eisiau i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch cystal â sylweddoli bod, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, God Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yn wyneb hyn byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio inni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn rhoi sylw llawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd mewn pob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried fel rhwymedigaeth ar y Weinyddiaeth.

Bydd yr Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu wrth gyd-drafod â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

© Hawlfraint y Goron 2014

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ag am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle bynnag yr ydym wedi nodi deunydd ac iddo hawlfraint trydydd parti bydd arnoch angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae fersiynau fformat gwahanol o'r adroddiad hwn ar gael ar gais oddi wrth LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk